**Absenoldeb disgyblion cysylltiedig â COVID-19**
**Canllaw cyflym i rieni**

| Beth y dylech chi ei wneud: | Camau i'w cymryd | Caiff ddychwelyd i'r ysgol pan |
|---|---|---|
| Os oes gan eich plentyn symptomau COVID-19:<br>• Tymheredd uchel - mae ei frest neu ei gefn yn teimlo'n boeth.<br>• Peswch newydd parhaus - mae'n pesychu am dros awr, neu wedi cael 3 phwl o besychu yn ystod y 24 awr diwethaf.<br>• Mae ei allu i arogli neu flasu wedi newid – rydych chi wedi sylwi nad yw'n gallu arogli neu flasu dim. | Rhaid i'ch plentyn beidio â dod i'r ysgol.<br><br>Rhowch wybod i'r ysgol.<br><br>Rhaid i bawb ar yr aelwyd hunanynysu am 14 diwrnod.<br><br>Trefnwch i gael prawf.<br><br>Rhowch wybod i'r ysgol ar unwaith am ganlyniad y prawf. | Mae canlyniad y prawf yn negatif. |
| Os yw'ch plentyn wedi cael canlyniad positif ar ôl cael prawf COVID-19 | Rhaid i'ch plentyn beidio â dod i'r ysgol.<br>Cysylltwch â'r ysgol.<br>Cytunwch ar y dyddiad cynharaf bosibl i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol – ar ôl cyfnod o 10 diwrnod o leiaf.<br>Rhaid i bawb ar yr aelwyd hunanynysu am 14 diwrnod.<br>Rhaid i'r swigen ynysu / dysgu o bell. | Mae'n teimlo'n well. Gall ddychwelyd i'r ysgol ar ôl 10 diwrnod hyd yn oed os yw'n dal i besychu neu os yw'n dal ym methu arogli/blasu o hyd. Gall y symptomau hyn bara am nifer o wythnosau. |
| Os oedd y canlyniad yn negatif. | Cysylltwch â'r ysgol.<br>Trafodwch pryd y caiff eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol (yr un diwrnod/diwrnod wedyn) | Mae canlyniad y prawf yn negatif. |
| Os yw fy mhlentyn yn wael ac yn dangos symptomau cysylltiedig â COVID-19. | Dilynwch y drefn arferol sydd wedi'i nodi ym mholisi absenoldeb yr ysgol. | Ar ôl 48 awr yn dilyn y pwl olaf o salwch/dolur rhydd os dyna'r rheswm dros yr absenoldeb. |
| Os oes rhywun ar yr aelwyd yn dangos symptomau COVID-19. | Rhaid i'ch plentyn beidio â dod i'r ysgol.<br>Cysylltwch â'r ysgol.<br>Rhaid i bawb ar yr aelwyd hunanynysu am 14 diwrnod.<br>Rhaid i'r unigolyn dan sylw gael prawf.<br>Rhowch wybod i'r ysgol ar unwaith am ganlyniad y prawf. | Mae canlyniad y prawf yn negatif. |
| Os oes rhywun ar yr aelwyd wedi cael canlyniad positif ar ôl cael prawf COVID-19. | Rhaid i'ch plentyn beidio â dod i'r ysgol.<br>Cysylltwch â'r ysgol.<br>Cytunwch ar y dyddiad cynharaf bosibl i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol – ar ôl cyfnod o 14 diwrnod o leiaf. | Mae'r plentyn wedi ynysu am 14 diwrnod. |
| Mae rhaglen Profi Olrhain Diogelu'r GIG wedi dweud bod fy mhlentyn wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi dal COVID-19. | Rhaid i'ch plentyn beidio â dod i'r ysgol.<br>Cysylltwch â'r ysgol.<br>Cytunwch ar y dyddiad cynharaf bosibl i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol.<br>Rhaid i'ch plentyn hunanynysu am 14 diwrnod o leiaf. | Mae'r plentyn wedi ynysu am 14 diwrnod. |
| Os ydych chi/eich plentyn wedi teithio ac yn gorfod hunanynysu dros gyfnod cwarantîn. | Ni ddylech gymryd gwyliau heb ei awdurdodi yn ystod y tymor.<br>Trafodwch y gofynion cwarantîn a chyngor y llywodraeth wrth drefnu gwyliau.<br>Rhaid treulio cyfnod mewn cwarantîn ar ôl dychwelyd o rai gwledydd.<br>Cytunwch ar y dyddiad cynharaf bosibl i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol.<br>Rhaid aros adref am o leiaf 14 diwrnod ar ôl dychwelyd.<br>Rhaid i bawb ar yr aelwyd hunanynysu. | Mae'r plentyn wedi cwblhau cyfnod o gwarantîn o 14 diwrnod. |
| Os ydych chi wedi cael cyngor meddygol i'ch plentyn ailddechrau gwarchod ei hun. | Rhaid i'ch plentyn beidio â dod i'r ysgol.<br>Cysylltwch â'r ysgol.<br>Rhaid i'ch plentyn warchod ei hun nes bydd y cyfyngiadau'n cael eu codi. | Mae'r ysgol yn dweud wrthych bod y cyfyngiadau wedi'u codi ac y gall eich plentyn ddychwelyd i'r ysgol. |
| Mae swigen fy mhlentyn wedi cau gan fod achosion o COVID-19 yn yr ysgol. | Rhaid i'ch plentyn beidio â dod i'r ysgol.<br>Helpwch eich plentyn i ddysgu o bell.<br>Bydd angen i'ch plentyn ynysu am 14 diwrnod. | Cewch wybod gan yr ysgol pryd y bydd y swigen yn ailagor. |